

## Adolygiad Blynyddol y Panel Ymgynghorol 2016/17

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu effeithiolrwydd a gwaith y Panel Ymgynghorol yn ystod 2016/17. Dyma'r pedwerydd adolygiad o'r fath ers sefydlu'r Panel yn 2012. Fel gyda'r adolygiadau blynyddol o'r blynyddoedd a fu, mae'n ystyried y safbwyntiau a gafodd eu mynegi gan Aelodau'r Panel yn y ffurflenni arfarnu hunanasesiad y buont yn eu llenwi yn ystod Chwefror 2017.

### 2. Rôl y Panel

- 2.1 Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw rhoi cefnogaeth a chynghor i'r Ombwdsmon wrth iddo ddarparu arweiniad i'r swyddfa a'i llywodraethu'n dda fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Hefyd, mae'r Panel Ymgynghorol yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisiau ac arferion.

- 2.2 Mae'r Panel Ymgynghorol yn rhoi cefnogaeth a chymorth penodol i'r Ombwdsmon ynglŷn â'r canlynol:

- gweledigaeth, gwerthoedd a dibenion;
- cyfeiriad strategol a chynllunio;
- atebolrwydd i ddinasyddion am y cyllid cyhoeddus a gaiff;
- trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol.

- 2.3 Cynghori'r Ombwdsmon yn unig yw gwaith y Panel Ymgynghorol, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau drwy ei hawl ei hun.

- 2.4 Mae'r Panel hefyd yn cynorthwyo'r Ombwdsmon i sefydlu:

- trefniadau llywodraethu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl unrhyw is-bwyllgorau;
- cyfeiriad strategol OGCC, ei nodau, ei amcanion a'i dargedau;
- polisiau busnes allweddol;
- polisiau a strategaethau cyflogaeth pwysig

yngyd â chraffu a rhoi sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol:

- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Busnes Blynyddol;
- dyraniad cyllideb lefel uchel;
- cyflwyno'r amcangyfrifon cyllidebol i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- cyfrifon adnoddau (wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg);
- contractau/buddsoddiadau cyfalaf (dros £250k) (wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg).

2.5 Mae hefyd yn monitro ac yn adolygu'r canlynol:

- rheolaeth fewnol a risg (wedi'i dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg);
- perfformiad a chyflawni gweithredol;
- perfformiad ariannol;
- effeithiolrwydd polisiau a strategaethau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn arbennig yng nghyswllt Deddf Cydraddoldeb 2010;
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid;
- iechyd a diogelwch a pharhad busnes.

### 3. Aelodaeth

3.1 Mae'r aelodaeth yn cynnwys:

- yr Ombwdsmon (Cadeirydd oherwydd ystyriaethau'n ymwneud ag atebolrwydd cyfansoddiadol)
- hyd at chwe aelod allanol (sy'n cynnig y profiad a'r sgiliau penodol y mae'r Ombwdsmon eu heisiau, a gall un ohonynt fod o swyddfa ombwdsmon arall).

3.2 Mae'r Rheolwr Cyfathrebu a Pholisi yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel; gall aelodau eraill o'r Tîm Rheoli fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon ond nid ydynt yn aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ffurfiol.

3.3 Mae Aelodau'r Panel yn cael eu recriwtio drwy ymarferiadau recriwtio agored, a chynhaliwyd y diweddraf yn chwarter olaf 2015/16 yn dilyn penderfyniad yr Ombwdsmon i gryfhau aelodaeth y Panel (a hefyd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg).

3.4 Dyma aelodau'r Panel Ymgynghorol annibynnol allanol drwy gydol 2016/17:

Margaret Griffiths  
Jonathan Morgan  
Bill Richardson  
Sharon Warnes  
Jan Williams  
John Williams.

### 4. Cyfarfodydd

4.1 Mae Aelodau'r Panel wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad i'r rôl, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cadw at lefel ragorol o bresenoldeb yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

4.2 Mae'r Panel yn gosod rhaglen waith flynyddol ar ei gyfer ei hun, ac mae Aelodau'r Panel wedi cael nifer o adroddiadau rheolaidd ymhob cyfarfod, megis monitro cynnydd o gymharu â'r targedau sydd yn y Cynllun Strategol a'r Cynllun Busnes;

penawdau ystadegol mewn perthynas â'r llwyth gwaith cwynion a chofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

- 4.3 Mae Aelodau'r Panel wedi cael cyfle hefyd i gyfrannu yn ystod y flwyddyn at gam cynnar yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredol blynyddol. Maent hefyd wedi ystyried fersiwn ddrafft o'r papur amcangyfrifon ar gyfer 2017/18 cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ym mis Medi.
- 4.4 Un pwnc allweddol y buwyd yn ei drafod yn ystod 2016/17 oedd y gwaith tuag at y nod o gael pwerau newydd i OGCC.
- 4.5 Trafodwyd hefyd Adroddiad Blynyddol 2015/16; y Strategaeth Gyfathrebu yn ogystal â Strategaeth Allgymorth ddiwygiedig; arolwg staff OGCC a'r cynllun gweithredu a sefydlwyd i ymateb i'r materion a godwyd; ac Adroddiad Blynyddol ICERS (Gwasanaeth Annibynnol ar gyfer Adolygu Cwynion), sy'n adrodd ynghylch cwynion a wnaed am wasanaeth OGCC ei hun.
- 4.6 Hefyd, dangosodd Aelodau'r Panel ddiddordeb mawr yn yr arolwg staff a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ei ganlyniadau, a'r camau a gymerwyd gan OGCC i ymateb i'r materion a godwyd.
- 4.7 Yn ystod 2016/17, cafodd y Panel nifer o 'eitemau trafod'. Roedd hyn yn cynnwys datblygu gwefan; cyngor clinigol; a fframwaith sicrhau ansawdd OGCC.
- 4.8 Fel rhan o'r trefniadau rheolaidd sydd ar gael, fe gafodd Aelodau'r Panel, rhwng cyfarfodydd, gopïau o'r Briff Craidd a luniwyd yn dilyn cyfarfod pob Tîm Rheoli. Hefyd, cafodd Aelodau'r Panel gopïau dan embargo o adroddiadau adran 16 pan gawsant eu cyhoeddi er mwyn eu briffio ymlaen llaw cyn unrhyw sylw posibl yn y cyfryngau. Hefyd, cafodd copi dan embargo o adroddiad thematig yr Ombwdsmon o'r enw 'Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Feunyddiol' ei anfon at Aelodau'r Panel.

## **5. Perthynas â Swyddfa'r Ombwdsmon**

- 5.1 Mynegodd Aelodau'r Panel farn fod y berthynas rhyngddynt eu hunain fel Panel Ymgynghorol wedi bod yn rhagorol ac yn gryf iawn, a'u bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae lefel dda o barch rhwng yr aelodau at y cyfraniadau mae pob un yn ei wneud i'r Panel. Mae Aelodau'r Panel o'r farn eu bod wedi cynnal perthynas effeithiol gyda'r Ombwdsmon a'i dîm rheoli.
- 5.2 Dywedwyd hefyd fod y berthynas â'r staff yn swyddfa'r Ombwdsmon wedi bod yn dda iawn, a phawb yn gymwynasgar, cefnogol a chwrtais bob amser. Dywedwyd mai'r sefyllfa pan fu angen cwestiynau materion oedd bod yr ymateb gan y rheolwyr wedi bod o'r radd flaenaf bob amser. Roedd y Panel o'r farn fod y tîm yn un hawdd i weithio ag ef, a'u bod wedi trin mewnbyn y Panel â pharch ac yn broffesiynol.

5.4 Eto, dywedodd holl Aelodau'r Panel fod y berthynas â'r Ombwdsmon a'i staff yn dda iawn a chadarnhaol. Dywedodd holl Aelodau'r Panel fod staff OGCC wedi bod yn hapus i gynorthwyo pan fo angen ac i ddatrys unrhyw faterion yn gyflym a phroffesiynol. Mae'r briffiadau mae'r Aelodau'n eu cael rhwng cyfarfodydd wedi cael eu gwerthfawrogi hefyd, a mynegwyd bod y rhain yn galluogi'r Panel i ddarparu lefel briodol o graffu proffesiynol a gwybodus.

## **6. Ystyriaethau yn y Dyfodol**

6.1 Gan feddwl am ystyriaethau ar gyfer y dyfodol, mae sawl Aelod wedi gwneud sylwadau tebyg am yr angen i lenwi swyddi sydd ar y gweill dros y flwyddyn nesaf, a phwysigrwydd recriwtio aelodau addas i sicrhau bod cymysgedd ddigonol o sgiliau priodol yn dod i'r Panel.

## **7. Asesiad Cyffredinol**

7.1 Mae'r adolygiad hunanasesu wedi cyflwyno adborth cadarnhaol iawn gan holl Aelodau'r Panel o ran eu rolau a'u hamcanion eu hunain ar y cyd â'r Ombwdsmon a'i staff.

7.2 Teimlai'r Aelodau bod 2016/17 wedi bod yn flwyddyn dda arall i'r Panel Ymgynghorol o ran cefnogi'r Ombwdsmon. Mae holl Aelodau'r Panel wedi teimlo eu bod wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd a'u bod wedi gallu cyfrannu eu gwybodaeth a'u sgiliau i drafodaethau, ac oherwydd yr amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol maent, gyda'i gilydd, yn darparu fforwm wybodus a phrofiadol iawn.

\*\*\*\*\*